# IS-BWYLLGOR CRAFFU DIOGELWCH CYMUNEDOL A DIOGELU'R CYHOEDD

**(via MS Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, S.Pursey, S.Rahaman a/ac S.M.Penry |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | E.Wellington, C.Jones, M.Rafferty, J.Jenkins and A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr D.Jones, C. Clement-Williams |
| **Gwahoddedigion:** | A.Metcalfe |

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Amlinellodd y Cadeirydd yr eitemau y byddai aelodau'r pwyllgor yn craffu arnynt yn ystod y cyfarfod – sef eitemau 6, 7 ac 8 ar yr agenda.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2021 fel cofnod gwir a chywir.

5. **CYHOEDDIADAU'R SWYDDOG**

Hysbyswyd yr Aelodau fod Angharad Metcalfe o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn bresennol yn y cyfarfod i roi cyflwyniad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

6. **DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2021-2022 - PERFFORMIAD CHWARTER 3 (1 EBRILL 2021 - 31 RHAGFYR 2021)**

Derbyniodd yr aelodau Ddata Rheoli Perfformiad Chwarter 4, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Rhagfyr 2021, ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd.

Holodd yr Aelod am yr eitem a oedd yn ymwneud â'r System Rheoli Gwybodaeth ac a oedd swyddogion wedi datrys y problemau parhaus gyda'r systemau a oedd ar waith. Dywedodd Swyddogion fod system rhannu gwybodaeth newydd ar draws y rhanbarth (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) mewn perthynas â gwybodaeth am gamddefnyddio cyffuriau. Mae'n rhannu gwybodaeth rhwng y cyrff perthnasol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd. Dywedodd Swyddogion fod y system wedi cael ei threialu ar draws y rhanbarth y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y problemau a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun peilot wedi'u datrys yn bennaf. O ran y ffigurau yr adroddwyd amdanynt, roedd swyddogion a swyddog monitro perthnasol y gwasanaeth yn hyderus bod y rhain yn gywir. Mae'r gwasanaeth yn hyderus eu bod, fel BCA, yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Fodd bynnag, lle nad ydynt, caiff yr is-grwpiau eu hysbysu a rhoddir atebion ar waith i sicrhau y gellir datblygu'r gwasanaethau. Amlinellwyd tri gwasanaeth yn yr adroddiad sy'n tanberfformio ac mae camau unioni wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gwella.

Cododd yr Aelodau'r ffigurau ar dudalen 13 o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gofynnwyd a oedd y ffigurau wedi gostwng yn rhan olaf y pandemig. Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd uchel yn y ffigurau ar ddechrau'r pandemig.

Cadarnhaodd swyddogion, er bod y ffigurau'n lefelu, nad ydynt yn dangos y gostyngiad a ddisgwylid. Mae'n anodd iawn ceisio adnabod patrymau a thueddiadau. Priodolwyd hyn yn flaenorol i ddigwyddiadau calendr penodol h.y. gemau rygbi etc. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol bellach yn cyflwyno nifer uwch o atgyfeiriadau risg uchel, canolig ac isel sy'n cael eu gweld gan y Timau.

Holodd yr Aelodau am y ffigurau sy'n ymwneud â'r dioddefwyr mynych. Nodwyd bod y Dangosydd Perfformiad yn gostwng, ac oedd, roedd y ffigur yn dal i fod yn goch. Amlinellodd swyddogion yr hyn yr oedd y ffigur yn ei gynrychioli ac y gellir ei ddehongli mewn dwy ffordd. O safbwynt delfrydol, gallai gynrychioli bod llai o ddioddefwyr mynych gan eu bod wedi symud allan o'r gwasanaeth yn llwyddiannus. Neu gallai hefyd gynrychioli bod llai o ddioddefwyr mynych yn ymgysylltu â'r gwasanaethau. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r ffigurau hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach ar gyfer Chwarter 4 a bod mwy o naratif yn cael ei ychwanegu er mwyn sicrhau bod esboniad manylach yn cael ei ddarparu.

Awgrymwyd y dylid cynnal seminar cynnar iawn i Aelodau yn dilyn yr etholiad, sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig, ei gymhlethdodau a'r gwasanaethau sydd ar waith. Cadarnhaodd swyddogion fod rhywbeth eisoes wedi'i gynllunio. Amlinellodd y swyddog yr hyn a fyddai'n cael ei drafod yn ystod y sesiwn hon.
Nododd swyddogion y cynnydd yn y cyllid a gafwyd i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y gwasanaethau, gyda'r galw'n cynyddu.
Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 7. **<u>DIWEDDARIAD AR GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU (BWRDD CYNLLUNIO ARDAL) - CYFLWYNIAD</u>**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad ar y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA). Rhoddwyd copi o'r cyflwyniad i'r Aelodau yn eu pecynnau agenda.
Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y cyflwyniad manwl.
Nododd yr Aelodau gymhlethdod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer y BCA. Nododd yr Aelodau y byddai'r adolygiad o'r gwasanaeth rhagnodi'n cael ei gynnal cyn diwedd yr haf.
Cododd yr Aelodau'r cynnydd yn y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yr adroddwyd amdanynt a gofynnwyd a ellid sefydlu'r proffil eto ynghylch pam yr oedd y rhain wedi digwydd neu a oedd yn dal i

gael ei ddadansoddi? Nododd swyddogion fod y BCA yn arweinydd ledled Cymru o ran coladu'r wybodaeth a sut y caiff ei chasglu. Mae swyddog penodol sy'n casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol. O'i chymharu ag adroddiadau yn y gorffennol, mae'r wybodaeth bellach yn cael ei harwain gan fwy o hysbysrwydd ac mae rhagor o wybodaeth ar gael. Gellid priodoli hyn i'r ffigurau a grybwyllir. Mewn perthynas â'r proffil, nodir bod pethau'n newid a thynnwyd sylw at y defnydd o aml-gyffuriau yn y cyflwyniad.  Ar gyfartaledd, mae 5 cyffur yn bresennol mewn marwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Nid oes patrwm y gellir ei sefydlu o ran pam y mae hyn. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod 80% o'r data bellach yn cyd-fynd ag adroddiad cwest y crwner. Gall fod hyder yn y data a geir. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei wella'r flwyddyn nesaf ac y gellir fformatio proffil. Holodd yr Aelodau am y diffyg cyswllt canfyddedig rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r ddarpariaeth iechyd meddwl. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn gweithio'n galed i uno'r ymagwedd drwy'r ymagwedd integredig ar gyfer iechyd y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer cysylltu gwasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau â'i gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob BCA gynhyrchu ei strategaeth leol ei hun a fydd yn rhoi argymhellion Llywodraeth Cymru ar waith. Yn 2019, cytunodd y BCA y byddai'r Bwrdd Iechyd yn arwain ar y darn hwn o waith. Dechreuodd y gwaith hwn, ond cafodd ei atal ym mis Mawrth 2020 ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod blaenoriaethu eitemau eraill. Digwyddodd y cyfarfod cyntaf i ailgychwyn y gwaith yr wythnos diwethaf.

Nododd yr Aelodau fod Castell-nedd Port Talbot yn hanesyddol wedi cael un o'r cyfraddau marwolaeth uchaf o ran camddefnyddio sylweddau yn y DU ac nad yw hyn wedi newid. Cadarnhaodd swyddogion fod y gronfa gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau sydd ar waith wedi cael cynnydd yn y cyllid ar gyfer eleni. Mae'n hanfodol y gwneir y defnydd gorau o'r cyllid hwn fel y gellir cyflawni'r canlyniadau gorau.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

## 8. **PROSIECT ADDER, SAFBWYNT BAE ABERTAWE - CYFLWYNIAD**

Rhoddodd Angharad Metcalfe o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyflwyniad ar y Prosiect ADDER. Rhoddwyd copi o'r cyflwyniad i'r Aelodau yn eu pecynnau agenda.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld yr arian ychwanegol i gynorthwyo gyda nodau parhaus. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch hirhoedledd y prosiect, gan fod dyddiad gorffen ar gyfer y cyllid ar hyn o bryd. Y nod ar gyfer y prosiect yw ei fod yn parhau fel gwasanaeth pob dydd sy'n rhan o'r gwasanaethau parhaus a gynigir. Mynegwyd rhwystredigaethau'r aelodau gan ei bod yn ymddangos bod y prosiect yn ymateb i broblemau strwythurol yn y gwasanaeth iechyd.

Roedd swyddogion yn cytuno'n gyffredinol â'r aelodau. Dywedodd swyddogion y dylid defnyddio'r dystiolaeth o'r holl brosiectau bach sy'n cael eu hariannu i greu gwasanaethau sy'n diwallu'r holl anghenion gofynnol a nodwyd. Dywedodd swyddogion fod y cyllid presennol yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau presennol o fewn cyfiawnder troseddol.
Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau'r cyflwyniad.

## 9. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**